Ansawdd Dŵr Yfed

Bydd Dŵr Cymru yn cymryd cyflenwadau dŵr o afonydd ar yr iseldiroedd, ynghyd â chronfeydd, llynnoedd a nentydd ar yr ucheldiroedd, a thyllau tanddaear. Cyn ei ddosbarthu i'r cyhoedd bydd yn ei drin i ddileu amhurdebau ac wedyn yn ei ddiheintio. Dosberthir dŵr yfed yn rhannol gan ddisgyrchiant ac yn rhannol wrth ei bwmpio drwy'r rhwydwaith pibellau a thanciau stôr (cronfeydd gwasanaeth).

Rhaid cynnal cyflenwadau dŵr yfed ar safon uchel iawn er mwyn dilyn gofynion Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001. Byddwn yn cymryd samplau ym mhob maes cynhyrchu a dosbarthu er mwyn sicrhau bydd ein dŵr yn dilyn y safonau ansawdd hynny, gan gynnal dros 150,000 prawf bob blwyddyn. Dros y blynyddoedd, mae'r profion hyn wedi datgelu gwelliant parhaus, gyda dros 99.8% o'r canlyniadau yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Llwyddwyd i wneud hynny wrth gynnal rhaglen fuddsoddi estynedig a gwella dulliau gweithredu a gwasanaethau cwsmeriaid.

Os na fydd sampl yn cyrraedd yr holl safonau, ni fydd o anghenraid yn golygu na fydd yn ddiogel i'w yfed. Mae rhai safonau'n ymwneud â golwg dŵr yn hytrach nag unrhyw fygythiad i iechyd. Yn ogystal, seiliwyd rhai o'r safonau iechyd ar lefelau gydol oes ac felly maent yn cynnwys elfen eang o ddiogelwch.

Ar ôl preifateiddio'r diwydiant dŵr yn 1989, cynhaliwyd rhaglen fuddsoddi enfawr i ail-adeiladu ac adnewyddu llawer o'r gweithfeydd trin dŵr. Erbyn hyn mae'r cwmni yn targedu gwariant ar gynnal a gwella'r gweithfeydd, ac adnewyddu ei rwydwaith pibellau.

Rhwng 1995 a 2000, ail-adeiladwyd neu adnewyddwyd 1,900 cilomedr o'r prif bibellau dŵr. Bydd y rhaglen fuddsoddi gyfredol yn gwella 4500 cilomedr pellach erbyn 2010, gyda'r nod o barhau i wella ansawdd uchel y dŵr a gyflenwir i'n cwsmeriaid.

Darperir gwybodaeth ar ansawdd cyflenwadau dŵr ar gyfer ein cwsmeriaid. Byddwn yn cynnal cofrestr yn manylu pob prawf ar y samplau a gymrir gan y cwmni i fonitro ansawdd. Gallwch ddarllen y gofrestr yn Nelson (ger Caerffili) a Dinas (Caernarfon). Fodd bynnag, mae modd trefnu i ddarllen y gofrestr mewn swyddfeydd lleol fel Clydach, Llwyn Helyg (Withybush), Glascoed a Henffordd. Yn ogystal, gallwn anfon gwybodaeth atoch ar ansawdd ein cyflenwadau. Mae'r gwasanaeth yn ddi-dâl yn achos gwybodaeth am ardal eich cartref, ond gallwn ddarparu gwybodaeth fwy eang ar gyfer gwaith ymchwil neu ddiddordeb arbennig.

Bydd dau grŵp yn gwirio ansawdd cyflenwadau cwmnïau dŵr, sef yr Arolygaeth Dŵr Yfed a swyddogion iechyd amgylcheddol yr awdurdodau lleol. Os bydd problem yn codi, byddwn yn hysbysu'r ddau grŵp yma, ynghyd ag awdurdodau iechyd cyhoeddus sy'n gyfrifol am sicrhau ymateb addas i unrhyw broblemau a ddatgelir.

Am wybodaeth bellach galwch ni ar 0800 052 0130.

Dŵr Cymru
Welsh Water